

Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu:

Sgiliau (Erbyn diwedd y Rhaglen Ddysgu, bydd y myfyrwyr YN GALLU): lluniadu a labelu celloedd gwaed gwyn a choch a labelu llun o du mewn a thu allan i'r galon; disgrifio llif y gwaed drwy'r galon.

Gwybodaeth (Erbyn diwedd y Rhaglen Ddysgu, bydd y myfyrwyr YN GWYBOD): adeiledd ffacocyt a chell goch y gwaed; swyddogaethau pedair prif ran y gwaed: celloedd coch, platennau, plasma, celloedd gwyn; adeiledd y galon; y ffaith mai cyhyr yw'r galon sy'n cyfangu er mwyn pwmpio gwaed o gwmpas y corff; rôl y pibellau coronaidd yn cyflenwi gwaed i gyhyr y galon; bod gwaed yn llifo i'r organau drwy rydweliâu ac yn dychwelyd i'r galon drwy wythiennau; bod system cylchrediad dwbl yn cynnwys un system ar gyfer yr ysgyfaint (ysgyfeiniol) ac un ar gyfer organau eraill y corff (systemig); swyddogaeth ac addasiadau'r capilarïau mewn organau ac adeiledd y rhydweiliau, gwythiennau a chapilarïau.

Dealltwriaeth (Erbyn diwedd y Rhaglen Ddysgu, BYDD Y MYFYRWYR YN DANGOS EU DEALLTWRIAETH): o'r ffaith mai cyfres o adweithiau sy'n cael eu rheoli gan ensymau yn y gell yw resbiradaeth, sy'n defnyddio glwcos ac ocsigen i ryddhau egni a chynhyrchu carbon deuocsid a dŵr. o resbiradaeth aerobig fel proses sy'n digwydd mewn celloedd pan fydd ocsigen ar gael a resbiradaeth anaerobig fel proses sy'n digwydd yn absenoldeb ocsigen; rôl y falfiau wrth atal gwaed rhag llifo'n ôl; o beryglon ac effeithiau clefyd cardiofasgwlar.

Geiriau/Termau Allweddol Newydd:
 Resbiradaeth
 Resbiradaeth aerobig
 Resbiradaeth anaerobig
 Dyled ocsigen
 celloedd coch, platennau
 plasma, atria, fentriglau,
 falf, rhydweiliau,
 gwythiennau, Angioplasti
 Clefyd cardiofasgwlar
 Statinau, trydarthiad,
 sylem ffloem
Geirfa Arholiad:
 Enwch, Disgrifiwch,
 Eglurwch/Esboniwch,
 Trafodwch

RhDd 3 – Wythnos 1 & 2 Deilliannau Dysgu:

Bydd y myfyrwyr yn gallu:

- Adnabod y bedair prif ran y gwaed
- Disgrifio swyddogaethau pedair prif ran y gwaed

Bydd y myfyrwyr yn defnyddio ac yn dangos gwybodaeth a sgiliau newydd yn yr asesiad ACD1

Bydd y myfyrwyr yn gallu:

- Disgrifio swyddogaeth y calon
- Adnabod y adeiledd y galon.
- Disgrifio rôl y pibellau coronaidd.

Bydd y myfyrwyr yn gallu:

- Disgrifio llif y gwaed drwy'r galon
- Disgrifio swyddogaethau'r falfiau

Bydd y myfyrwyr yn gallu:

- Disgrifio system cylchrediad y gwaed fel system cylchrediad dwbl.
- Disgrifio llif y gwaed drwy'r corff



Meini prawf llwyddiant:

Bydd myfyrwyr yn enwi, labelu a disgrifio a thrafod addasiadau rhannau o'r gwaed ar ddiagram.

ACD1 (~10 marc)

Bydd myfyrwyr yn adnabod a labelu rhannau mewnol ac allanol y galon ar ddiagram.

Bydd myfyrwyr yn disgrifio taith y gwaed drwy'r galon.

Bydd myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth o system cylchrediad dwbl trwy ddangos ar ddiagram trwy ba rannau y mae'r gwaed ocsigenedig a deocsigenedig yn llifo.

Gwaith Cartref RhDd 3

Adolygu ar gyfer yr ACD1

RhDd 2 – Wythnos 3 & 4 Deilliannau Dysgu:

Bydd y myfyrwyr yn defnyddio ac yn dangos gwybodaeth a sgiliau newydd mewn ffug arholiad

Bydd y myfyrwyr yn gallu:

- Disgrifio'r peryglon ac effeithiau clefyd cardiofasgwlar. Trafod y fanteision ac anfanteision y triniaethau l ar glefyd cardiofasgwlar

Bydd y myfyrwyr yn gallu:

- Adnabod adeiledd deilen
- Disgrifio swyddogaeth y stomata a chelloedd gwarchod a stoma
- defnyddio microsgop i edrych ar drawstoriadau o ddail



Meini prawf llwyddiant:




Ffug arholiad

Bydd myfyrwyr yn defnyddio amryw o ffynonellau gwybodaeth ac yn crynhoi manteision ac anfanteision amryw o driniaethau ac ataliadau clefyd y galon.

Bydd myfyrwyr yn adnabod a labelu rhannau mewnol ac allanol y deilen ar ddiagram.

Gwaith Cartref RhDd 3

Adolygu ar gyfer y ffug arholiad

<p>RhDd 2 – Wythnos 5 & 6 Deilliannau Dysgu:</p> <p>Bydd y myfyrwyr yn gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • disgrifio pwysigrwydd dwr i blanhigion; • addasiadau gwreiddflew o ran cynyddu'r arwynebedd mewn gwreiddyn ar gyfer amsugno; • disgrifio rôl osmosis wrth i blanhigion gymryd dŵr ac wrth i'r dŵr symud drwy'r planhigyn; • cymryd halwynau mwynol gan wreiddflew drwy gludiant actif <p>Bydd y myfyrwyr yn gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • disgrifio addasiadau sylem • disgrifio trydarthiad wrth i ddŵr symud drwy blanhigyn yn cynnwys effaith amodau amgylcheddol gwahanol ar gyfradd trydarthu planhigyn/toriad planhigyn <p>Bydd y myfyrwyr yn defnyddio ac yn dangos gwybodaeth a sgiliau newydd yn yr asesiad ACD2.</p> <p>Bydd y myfyrwyr yn gallu</p> <ul style="list-style-type: none"> • ymchwilio i'r ffactorau sy'n effeithio ar drydarthu <p>Bydd y myfyrwyr yn gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Disgrifio rôl cloroffyl, egni golau, carbon deuocsid a dŵr mewn ffotosynthesis <p>Bydd y myfyrwyr yn gallu</p> <ul style="list-style-type: none"> • profi am bresenoldeb startsh mewn deilen. 	<p style="text-align: center;">    </p>	<p>Meini prawf llwyddiant:</p> <p>ACD2(~10 marc)</p> <p>Bydd myfyrwyr yn disgrifio sut mae'r dwr yn cael ei amsugno i mewn i'r gweoddiau a'i gludo fyny'r coesyn.</p> <p>Bydd myfyrwyr yn disgrifio effaith ffactorau amgylcheddol ar drydarthiad</p> <p>Bydd myfyrwyr yn egluro pwysigrwydd adweithyddion, cloroffyl a golau mewn ffotosynthesis.</p> <p>Bydd myfyrwyr yn cynnal arbrawf ymarferol i brofi am startsh mewn deilen, yn llunio casgliadau o'u canfyddiadau ac yn cynnig ffyrdd i wella'r ymchwiliad</p>	<p>Gwaith Cartref RhDd 2</p> <p>Adolygu ar gyfer prawf geiriau</p>
<p>RhDd 2 – Wythnos 7 Deilliannau Dysgu:</p> <p>Bydd y myfyrwyr yn gallu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Disgrifio'r effaith factorau cyfyngol ar ffotosynthesis <p>Bydd y myfyrwyr yn gallu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymchwilio'r effaith factorau cyfyngol ar ffotosynthesis 		<p>Meini prawf llwyddiant:</p>	<p>Gwaith Cartref RhDd 2</p>